YOUTH OFFENDING TEAM Inspection

Datganiad i'r wasg

Ffôn: Ymholiadau'r cyfryngau: 0203 334 3527
Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi • Ail Lawr • Ashley House • 2 Monck Street • Llundain • SW1P 2BQ
Ffôn: 020 7035 2202 • Ffacs: 020 7035 2237
E-bost: HMIP.enquiries@hmiprobation.gsi.gov.uk • http://inspectorates.justice.gov.uk/hmiprobation/

Arolygiad annibynnol o waith prawf a throseddwyr ifainc

DAN EMBARGO TAN 00:01 11/02/2009
CYHOEDDI ADRODDIAD AROLYGU
GWASANAETH TROSEDDAU IEUENCTID ABERTAWE

Heddiw, cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf o bedwerydd cam yr arolygiadau o Dimau Troseddwyr Ifainc yng Nghymru a Lloegr. Cynhaliwyd yr arolygiad o Wasanaeth Troseddwyr Ifainc Abertawe gan dîm arolygu amlasiantaethol.

Yn ôl Andrew Bridges, Prif Arolygydd Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi:

"Cynhaliwyd yr arolygiad o Wasanaeth Troseddwyr Ifainc Abertawe yn ystod pedwerydd cam ein rhaglen arolygu Timau Troseddwyr Ifainc. Gwelsom Wasanaeth Troseddwyr Ifainc (GTI) sydd wedi'i sefydlu'n dda, ac sydd wedi'i integreiddio'n briodol â grwpiau strategol a gweithredol eraill. Mae'r Bwrdd Rheoli wedi gweld rhywfaint o newidiadau o ran arweinyddiaeth ac aelodau, ond mae ymrwymiad a chyfranogiad gweithredol yn amlwg.

Mae'r GTI wedi datblygu gwasanaethau ataliol yn y gorffennol ac, yn ogystal ag ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan y GTI ei hun, ymgysylltir â nifer o grwpiau gwirfoddol a lleol. Mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn dda.

Mae plant a phobl ifanc yn cael gwasanaeth da ar y cyfan gan y GTI, gan gynnwys ymyriadau iechyd ac addysg. Gwelwyd gwelliannau sylweddol wrth i'r gyfradd droseddu ostwng. Fodd bynnag, mae pryder ynglŷn â'r prosesau ar gyfer asesu a rheoli'r Perygl o Niwed a'r duedd i fod yn agored i niwed, ac mae lle i ddatblygu gwaith sy'n ymwneud â magu plant a gwaith sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr."

Dyma brif ganfyddiadau'r adroddiad:

Gwaith yn y llysoedd

Roedd y GTI yn darparu gwasanaeth da i'r llysoedd a chynhelid nifer o gyfarfodydd, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda defnyddwyr llysoedd, a hyfforddiant ar y cyd. Roedd cefnogaeth tra ar fechnïaeth a gwaith goruchwylio a chadw ar remand yn cael eu rheoli'n dda, ac roedd gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer y bobl ifanc a oedd yn cael eu cadw ar remand yn y ddalfa. Roedd rhywfaint o bryder ynglŷn ag adroddiadau cyn dedfrydu ac adroddiadau eraill i'r llys, gan gynnwys asesu'r Perygl o Niwed a'r tebygolrwydd o aildroseddu. Ni ddarperid adborth systematig gan gynrychiolwyr y llys am ansawdd yr adroddiadau na'r gwasanaeth yn gyffredinol.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

Gwelwyd bod y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc a fu'n ymwneud â'r GTI yn cael canlyniadau cadarnhaol a bod gostyngiad sylweddol yn nifer y troseddau. Roedd gwasanaethau ataliol wedi'u sefydlu'n dda ac roedd ganddynt brosesau clir ar gyfer atgyfeirio a sgrinio. Roedd yr asesiadau o ansawdd da ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd angen rhoi sylw i asesu a rheoli'r Perygl o Niwed, y Perygl o Niwed Difrifol a'r duedd i fod yn agored i niwed, ynghyd ag ansawdd cynlluniau ymyrryd. Roedd y staff yn ymwybodol iawn o faterion diogelu. Roedd cysylltiad da gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol, a gwelwyd rhywfaint o weithio ar y cyd, ond nid oedd y gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ymateb i atgyfeiriadau bob tro. Roedd ystod eang o ymyriadau, a rhoddid sylw i anghenion yn ymwneud ag amrywiaeth. Roedd mynediad da ar y cyfan at wasanaethau iechyd ac addysg i blant a phobl ifanc a oedd mewn perygl o droseddu neu a oedd wedi troseddu. Nid oedd strategaeth gynhwysfawr ar fagu plant ac roedd angen gwneud cryn dipyn o waith datblygu yn y maes hwn.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi cael dedfryd o garchar

Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y dedfrydau o garchar ynghyd â gwelliannau i'r lleoedd aros ar gyfer llawer o blant a phobl ifanc. Roedd rheolwyr achosion yn ymwneud â chyfarfodydd ac adolygiadau'r cynllun hyfforddiant cychwynnol ar y cyfan. Roedd y cysylltiad â phlant a phobl ifanc yn bodloni'r safonau cenedlaethol, er y byddai plant a phobl ifanc wedi hoffi cael cysylltiad ar adegau ar wahân i gyfarfodydd ffurfiol. Roedd rhywfaint o bryder ynglŷn ag asesu a rheoli'r Perygl o Niwed, y Perygl o Niwed Difrifol a'r duedd i fod yn agored i niwed. Wrth ddychwelyd i'r gymuned, roedd plant a phobl ifanc yn manteisio ar nifer o ymyriadau yn y Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid, gan gynnwys addysg, hyfforddiant, gweithgareddau cymdeithasol a gweithgareddau corfforol. Roedd mynediad da at wasanaethau iechyd, gan gynnwys gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Dioddefwyr a chyfiawnder adferol

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan ddioddefwyr. Roedd y penderfyniad i gyfyngu prosesau dioddefwyr a chyfiawnder adferol i rybuddion terfynol a gorchmynion atgyfeirio yn bennaf wedi arwain at ddiffyg ystyriaeth gyson a systematig o waith yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o ddioddefwyr, diogelwch dioddefwyr a phrosesau cyfiawnder adferol yn y rhan fwyaf o'r achosion eraill. Roedd rhywfaint o waith yn cael ei wneud ym maes ymwybyddiaeth o ddioddefwyr ac roedd safon y gwaith hwn yn dda. Prin oedd y defnydd o drefniadau gwneud iawn ac ychydig iawn o weithgareddau gwneud iawn uniongyrchol a welwyd. Nid oedd dioddefwyr yn ymwneud â phaneli troseddwyr ifainc fel arfer.

Rheoli ac arwain

Roedd gan y Bwrdd Rheoli gynrychiolaeth briodol o holl bartneriaid statudol y GTI ac roedd yn dod yn grŵp deallus a oedd yn herio'n briodol. Roedd angen rhoi sylw i gynefino, yn enwedig yng nghyd-destun rolau a chyfrifoldebau. Roedd y GTI yn ymwneud â phob grŵp strategol a gweithredol arall ac adlewyrchid hynny yng Nghynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008. Roedd pryder ynglŷn â'r adnoddau a ddarperid i'r GTI gan bartneriaid statudol. Roedd y GTI wedi bod yn llwyddiannus iawn â'i ymdrechion i gael cyllid allanol, ond cyllid tymor byr oedd hwnnw. Roedd y rhan fwyaf o'r staff, ond nid y cyfan, yn effeithiol ac yn dangos ymrwymiad i'w gwaith; roeddent yn cael eu goruchwylio, roeddent yn cael eu rheoli'n dda ac roeddent wedi cael hyfforddiant. Roedd pob un wedi cael archwiliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Nodwyd rhai anghenion pwysig yn ymwneud â hyfforddiant.

NODIADAU I OLYGYDDION

1. Cynhaliwyd yr arolygiad o Wasanaeth Troseddwyr Ifainc Abertawe rhwng 29 Medi a 3 Hydref 2008. Roedd cyfanswm poblogaeth Dinas a Sir Abertawe yn 223,301 yn ôl Cyfrifiad 2001. Roedd 10.2% o'r boblogaeth hon rhwng 0 a 17 oed ar adeg y cyfrifiad. Roedd y ganran hon ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 10.4%.
2. Mae naw Arolygiaeth yn cynnal arolygiadau Timau Troseddwyr Ifainc / Gwasanaeth Troseddwyr Ifainc, sef y Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol, Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Comisiwn Gofal Iechyd, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, y Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted) ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.
3. Dechreuodd y rhaglen arolygu Timau Troseddwyr Ifainc ym Mehefin 2003. Mae pob un o'r 157 Tîm sydd yng Nghymru a Lloegr yn cael ei arolygu dros gylch o bum mlynedd.
4. Cynhelir yr arolygiad yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth i arolygu cymesur a chydgysylltiedig mewn llywodraeth leol, wedi'i lywio gan ganlyniadau'r Asesiad Cynhwysfawr o Berfformiad a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Felly, datblygwyd rhaglen sydd:
   - yn gymesur â risg ac sy'n arolygu dim ond y meysydd gwaith hynny lle mae tîm yn perfformio'n dda er mwyn lledaenu arferion da
   - yn ategu, ac yn cael ei chydlynu â rhaglenni arolygu eraill, yn bennaf y Cyd-Adolygiadau Ardal o wasanaethau plant (dan arweiniad Ofsted) a'r Asesiad Corfforaethol (dan arweiniad y Comisiwn Archwilio)
   - yn cymryd datblygiad diweddar Timau Troseddwyr Ifainc sefydliadau i ystyriaeth.
5. Datblygwyd safonau a meini prawf cynhwysfawr i gwmpasu pedwerydd cam yr adolygiad, gan ganolbwyntio ar:
   - waith yn y llysoedd
   - plant a phobl ifanc yn y gymuned (y rhai sydd mewn perygl o droseddu a'r rhai sydd wedi troseddu)
   - plant a phobl ifanc sydd wedi cael dedfryd o garchar
   - dioddefwyr a chyfiawnder adferol
   - rheolaeth y Tîm Troseddwyr Ifainc a threfniadau partneriaeth.